

Canllawiau ar Gyflogi Ecolegwyr

Os oes posibilrwydd y bydd y gwaith rydych chi am ei wneud yn effeithio ar rywogaethau a warchodir, fe ddylech chi gyflogi ecolegydd ymgynghorol er mwyn cael cyngor proffesiynol. Pan fyddwch chi'n gwneud hynny, mae'n bwysig eich bod chi'n ffyddiog bod yr arolygon a'r cyngor rydych chi'n talu amdanyn nhw yn briodol ac o safon addas. Os nad yw'r gwaith ecolegol yn cael ei wneud yn iawn, mae'n bosib y bydd angen ei wneud eto, a gallai hyn olygu gorfod gohirio'r gwaith arfaethedig gan arwain at gostau ychwanegol.

Diben cyflogi ecolegydd yw sicrhau bod eich cynllun neu'ch prosiect chi'n ystyried y rhywogaeth a warchodir ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â rhywogaethau a warchodir. Dylech gael gwybodaeth ecolegol cyn gynted â phosib a bydd ei hangen ar gyfer cais cynllunio a thrwydded rhywogaeth a warchodir (os oes angen un) fel rheol. Drwy ganfod y problemau a dod o hyd i atebion yn gynnar yn y broses, fe allwch chi leihau'r tebygolrwydd o oedi maes o law ac arbed arian yn y pen draw.

Os nad ydych chi'n siŵr a oes angen i chi gyflogi ecolegydd proffesiynol, gall Cyfoeth Naturiol Cymru eich helpu. Mae gan rai awdurdodau lleol restrau o ecolegwyr sy'n gweithio yn eu hardaloedd nhw; a gallwch gael manylion rhai ecolegwyr gan y Sefydliad Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol a chyrrff proffesiynol eraill (mae dolen ar ddiwedd y ddogfen hon).

Nod y nodyn canllaw hwn yw eich helpu chi gyda'r cwestiynau allweddol i'w hystyried wrth ddewis ecolegydd ymgynghorol. Fodd bynnag, oherwydd bod cymaint o sefyllfaoedd gwahanol lle gallai fod angen ecolegydd, allwn ni ddim rhoi rhestr lawn o'r holl faterion y bydd angen i chi eu hystyried.

Wrth roi cyngor i chi ar effaith debygol eich gwaith arfaethedig, bydd angen i'ch ecolegydd gyflawni cyfres o dasgau:

- Bydd angen cynnal arolwg i weld a oes rhywogaethau a warchodir yn defnyddio'r safle ac os felly, maint poblogaeth pob rhywogaeth. Dylai'r ecolegydd gyflwyno'r canlyniadau mewn adroddiad ysgrifenedig clir.
- Os yw'ch ecolegydd yn cadarnhau bod rhywogaeth a warchodir yn bresennol ar y safle, rhaid iddo asesu effaith eich cynigion ar y rhywogaeth hefyd. Dylai roi cyngor i chi ar yr effeithiau tebygol ac, os bydd angen, sut gallwch chi osgoi'r effeithiau hynny; neu os nad yw hyn yn bosib, sut gallwch chi liniaru'r effeithiau. Gallai hyn effeithio ar gynllun y datblygiad, a dylai'r ecolegydd nodi'r mesurau lliniaru neu ddigolledu yn glir.
- Efallai y bydd angen i'ch ecolegydd gynghori'ch pensaer neu reolwr prosiect er mwyn sicrhau bod y gwaith ecolegol yn cael ei gynnwys yn iawn yn eich prosiect.

- Os bydd angen trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop arnoch chi ar gyfer eich gwaith arfaethedig, bydd angen i chi gwblhau a chyflwyno cais am drwydded (mewn da bryd i ni allu prosesu'ch cais) ar ôl i chi gael caniatâd cynllunio. Rhaid i chi gyflwyno Datganiad Dull gan yr ecolegydd ymgynghorol i ategu'ch cais. Dylai'r Datganiad Dull gynnwys manylion y gwaith arfaethedig a fydd yn helpu i leihau'r effaith ar y rhywogaeth a warchodir, yn cynnwys y deunyddiau y byddwch yn eu defnyddio ac amseru'r gwaith. Os hoffech chi fwy o gyngor, trowch at 'Gwybodaeth i'w chynnwys mewn cais am drwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop'.
- Efallai y bydd y Datganiad Dull a thrwydded angen gwaith monitro i asesu llwyddiant y mesurau lliniaru neu iawndal arfaethedig. Dylai eich ecolegydd ddatgan y monitro ychwanegol sydd angen a'i gynnwys yn y cynnig. Os na fydd y monitro sydd ei angen yn cael ei gynnwys, dylech fod yn ymwybodol y bydd hyn yn golygu costau ychwanegol ar ôl datblygu.

Nodwch, er mwyn osgoi oedi diangen, rhaid i chi gasglu'r holl wybodaeth ofynnol cyn gynted â phosib a'i chyflwyno gyda'r cais cynllunio. Mae'n cynnwys gwybodaeth o'r arolwg rhywogaethau a warchodir a gwybodaeth am unrhyw effaith gaiff y gwaith arfaethedig ynghyd ag unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig. Mae'n bosib y bydd mesurau lliniaru, yn cynnwys osgoi a digolledu, yn golygu bod angen addasu cynlluniau neu amserlenni, felly mae'n well eu hystyried yn gynnar yn y broses.

Os yw'r gwaith arfaethedig yn cael ei wneud gydag arian grant neu'n destun cyfyngiadau amser eraill, bydd angen i chi neilltuo digon o amser yn amserlen y prosiect i gynnal arolygon rhywogaethau a warchodir ar yr adeg gywir o'r flwyddyn a chwblhau unrhyw waith lliniaru sydd ei angen. Mewn rhai achosion, mae angen cwblhau'r gwaith lliniaru cyn unrhyw waith arall er mwyn darparu cynefinoedd newydd i rywogaethau y bydd y gwaith yn effeithio arny'n nhw.

Mae'n bwysig nodi y dylai'r arolygon a'r cynigion lliniaru fod yn gymesur â graddfa'r gwaith a'i effaith debygol ar statws cadwraethol y rhywogaeth a warchodir, h.y. fel rheol, bydd angen mwy o lawer o waith ar brosiectau mawr a allai gael effaith eang nag ar gyfer prosiectau bach na fydd yn cael fawr ddim effaith.

Fe gewch ragor o ganllawiau ar wneud cais am drwydded yn yr adran Gwneud Cais a Phrynu ar ein gwefan.

Geirfa

Osgoi – newid y cynigion neu'r fethodoleg er mwyn osgoi troseddu.

Lliniaru – addasu cynigion i leihau effeithiau niweidiol ar rywogaethau a warchodir.

Digolledu – darparu clwyd neu gynefin i gymryd lle'r un sy'n cael ei cholli yn sgil y datblygiad.

Materion i'w hystyried wrth qyflogi ecolegydd

1) A oes gan eich ecolegydd ymgynghorol arfaethedig y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen? Ydy'r ymgynghorydd yn gyfarwydd â sefyllfaoedd tebyg i'ch un chi, maint y prosiect a'r dulliau fydd eu hangen o bosib?

- Gofynnwch am gael gweld CV gyda manylion profiad ac arbenigedd yr ymgynghorydd.
- Gofynnwch am gael siarad â chleientiaid blaenorol neu weld geirada ganddyn nhw.
- Gofynnwch i'r ecolegydd am gopi o un o'i adroddiadau.
- Oes gan yr ecolegydd drwydded i arolygu'r rhywogaeth a warchodir dan sylw? Er bod modd cynnal rhai elfennau o arolwg heb drwydded i aflonyddu ar y rhywogaeth dan sylw, mae'n gwneud mwy o synnwyr i'r arolygydd fod â thrwydded arolygu er mwyn gallu cwblhau'r arolwg i gyd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ystlumod. Gallwch gyfrif nifer yr ystlumod sy'n gadael clwyd heb drwydded arolygu ond byddai angen trwydded i fynd i mewn i'r glwyd a chasglu gwybodaeth am natur y glwyd. *D.S. Nid yw meddu ar drwydded arolygu yn arwydd o allu person i wneud gwaith ymgynghori ecolegol.*
- Dylech ganfod a yw'r ecolegydd wedi ymdrin â sefyllfaoedd tebyg o'r blaen ac wedi cwblhau ceisiadau llwyddiannus am drwydded ddatblygu.
- Oes gan yr ecolegydd arbenigedd arbennig, e.e. arolygu a lliniaru ar gyfer ystlumod?
- Ydy'r ecolegydd yn gyfarwydd â'r amrywiaeth o rywogaethau yn yr ardal lle bwriedir gwneud y gwaith?

2) Sut byddai'r ecolegydd yn cynnal yr arolwg a faint o amser y mae'n ei dybio y dylai gymryd? Os oes angen darparu cynllun lliniaru, pa broblemau mae'r ecolegydd yn eu rhagweld?

- Gofynnwch am fanylion sut bydd yn cynnal yr arolwg o'r rhywogaeth a warchodir i sicrhau ei fod yn briodol i'ch sefyllfa chi. Dylai'r ecolegydd egluro ei ddull gweithredu a nodi unrhyw faterion osgoi, lliniaru neu ddigolledu a allai godi.
- Bydd amserlen yr arolwg yn dibynnu ar y rhywogaeth dan sylw a chymhlethdod y safle neu'r prosiect.
- Ar rai adegau o'r flwyddyn, dim ond asesiad cychwynnol o safle y gellir ei gynnal (e.e. ni fyddai arolwg o ystlumod yn ystod y gaeaf yn gallu gweld a oes yna glwyd fridio ai peidio) a byddai angen cael rhagor o wybodaeth yn ystod y prif dymor arolygu. Dylai'r ecolegydd eich gwneud chi'n ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau sydd i'r arolwg y gall ei gynnal pan fyddwch yn gwneud eich cais a rhoi gwybod i chi am unrhyw waith arall fydd ei angen.

3) Pa fethodoleg a chanllawiau fyddai'r ecolegydd yn eu defnyddio?

Mae canllawiau ar gynnal arolygon a mesurau lliniaru ar gael ar gyfer y rhywogaethau a warchodir mwyaf cyffredin:

- **Moch daear** – darllenwch "Moch Daear: Canllawiau i ddatblygwyr".

- **Ystlumod** - Mae 'Bat surveys – Good Practice Guidelines' ar gael ar wefan y Bat Conservation Trust (BCT) ynghyd ag amrywiaeth o daflenni'r BCT ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae 'Bat Mitigation Guidelines' Natural England ar gael ar wefan gov.uk. Gweler hefyd "Bats" a "Bats in Roofs (a guide for building professionals)". Mae'r "Lesser Horseshoe Bat Conservation Handbook" ar gael gan y Vincent Wildlife Trust
- **Pathew** - darllenwch 'The dormouse conservation handbook' (2^{il} rifyn) sydd ar gael ar wefan People's Trust for Endangered Species (PTES).
- **Madfall Ddŵr Gribog** – darllenwch "Great Crested Newt Mitigation Guidelines" English Nature sydd ar gael ar wefan gov.uk. Hefyd, gweler y 'Great Crested Newt Conservation Handbook' sydd ar gael o Froglife a "Great Crested Newts: a guide for developers".
- **Dyfrgwn** – gweler "Otters: Guidelines for Developers".
- **Ymlusgiaid** – gweler "Ymlusgiaid yng Nghymru".
- **Llygoden Bengron y Dŵr** – gallwch brynu 2^{il} rifyn "The Water Vole Conservation Handbook" (cyhoeddir gan WildCRU) gan gyflenwyr llyfrau ecoleg ar-lein.

D.S. Gallwch archebu holl gyhoeddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru gan y tîm Ymholiadau, ffoniwch 0300 065 3000 neu e-bostio ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

4) Sut bydd yr ymgynhorydd ecolegol yn cyfrifo'i gostau?

- Dylech chi gael dadansoddiad o sut mae costau'n cael eu cyfrifo. Dylai gynnwys cwblhau arolygon, adroddiadau a pharatoi datganiad dull ar gyfer y gwaith.
- Hwyrach y bydd yr ecolegydd yn gallu rhoi cyngor ar gostau rhoi cynlluniau lliniaru ar waith, gwneud cais am drwydded (os oes angen un) ac unrhyw waith monitro fydd angen ei wneud ar ôl cwblhau'r datblygiad.
- Gofynnwch am ddyfynbris gan ecolegwyr eraill i gymharu costau a dulliau gweithio. **Cofiwch nad yw'r dewis rhataf bob amser yn y gorau.**

5) Oes gan yr ecolegydd yswiriant indemniad cyhoeddus?

- Byddai disgwyl i ecolegydd proffesiynol sy'n gwneud gwaith masnachol fod ag yswiriant priodol.

6) Ydy'r ecolegydd yn aelod o sefydliad proffesiynol?

- Oherwydd natur ac amrywiaeth y sgiliau ecolegol a allai fod eu hangen, mae mynnu bod ecolegydd yn aelod o un corff penodol yn anodd. Nid yw aelodaeth yn profi lefel sgiliau na gallu ecolegydd mewn perthynas â rhywogaethau a warchodir arbennig. Er hynny, rhaid i ecolegwyr sy'n aelodau gydymffurfio â chodau ymddygiad neu godau ymarfer, felly rhaid iddyn nhw gynnal arolygon mewn modd proffesiynol ac egluro unrhyw gyfyngiadau ar eu gwaith.

7) A allwch chi gwyno os yw'r gwaith neu'r gwasanaeth a ddarperir yn is-safonol ?

- Os ydych yn credu bod y gwasanaeth neu'r gwaith sy'n cael ei ddarparu gan yr ecolegydd yn is-safonol mae gennych yr hawl i gwyno . Yn y lle

cyntaf ceisiwch ddatrys y mater gyda'r ecolegydd cyn dilyn yr achos ymhellach. Os na ellir dod i gytundeb, gallwch gwyno i'r Adran Safonau Masnach yn yr Awdurdod Lleol . Fel arall, gallwch gwyno i'r corff proffesiynol y mae'r ymgynghorydd wedi ei gofrestrugyda. Mae CIEEM er enghraifft gyda proses cwyno ac yncyhoeddi penderfyniadau disgyblu ar eu gwefan .

Sicrhewch fod yr adran trwyddedu rhywogaeth yn NRW yn cael eu copïo i mewn i unrhyw gwyn.